BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart



## Annwyl Rieni a Gofalwyr,


Rydym yn gweithio â **BookTrust Cymru** i gael mwy o deuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd. Mae eich plentyn wedi cael **pecyn llyfrau gan BookTrust Cymru**, sydd wedi'i greu i wneud darllen yn weithgarwch hwyliog a buddiol y gallwch ei wneud fel teulu.

Mae BookTrust Cymru am weld pob plentyn a theulu'n cael yr hyn sydd ei angen arnynt i ddechrau darllen – ac i garu llyfrau – gan fod geiriau a storïau'n helpu plant i ddeall y byd, ac i'w paratoi am fywyd.

### Pam ddylwn i ddarllen gyda fy mhlentyn?

- Mi all rhannu storïau fod yn ffordd hwyliog a buddiol o dreulio amser gyda'ch plentyn
- Gall storïau helpu plant i ddysgu am y byd o'u cwmpas
- Mae llyfrau'n wych ar gyfer datblygiad eich plentyn
- Gall storïau sbarduno pob math o sgyrsiau rhyngoch chi a'ch plentyn
- Gall llyfrau danio dychymyg plant ac ehangu eu gorwelion





## Sut mae dechrau arni?



- Closiwch at eich gilydd ac edrychwch ar lyfr gyda'ch gilydd. Mi allech annog y plentyn i afael yn y llyfr ac i droi'r tudalennau
- Dechreuwch yn raddol: nid oes yn rhaid i chi ddarllen llyfr o glawr i glawr, mi all dim ond 5 munud o ddarllen ddod â llawer o fuddiannau
- Mi allwch rannu storïau ar unrhyw adeg neu yn unrhyw le, mi all fod dros frecwast neu yn y parc, wrth gael bath neu pan fydd yn amser gwely
- Dylai fod yn hwyl! Cofiwch nid oes ffordd gywir nac anghywir o rannu stori

Mae eich pecyn yn cynnwys dau lyfr, yn ogystal â gweithgareddau a gemau i ddod â'r llyfrau'n fyw. Cewch ragor o syniadau ar ddefnyddio eich pecyn drwy fynd i Hyb Teuluoedd Dechrau Da BookTrust Cymru: **booktrust.org.uk/cy-gb/familyhubwales**

Mi fydd BookTrust Cymru yn gwerthfawrogi eich adborth. Gallwch roi gwybod iddynt sut yr ydych yn mwynhau eich pecynnau llyfrau drwy lenwi arolwg ar-lein byr yn: **booktrust.org.uk/storytellerfeedbackwales**



[EDITABLE SECTION]

## Daliwch ati i rannu storïau gyda'ch gilydd

Defnyddiwch y gofod hwn i adael i deuluoedd wybod pa wasanaethau eraill sydd ar gael iddynt yn lleol, er enghraifft, sesiynau Odl a Stori.



**Rydym yn gobeithio y cewch chi a'ch plentyn hwyl gyda'ch gilydd gyda'ch pecyn!**

**booktrust.org.uk/cymru**

@BookTrustCymru

©2023 BookTrust. Rhif elusen / Charity Number: 313343

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**